

## CYNGOR CYMUNED LLANDWROG

Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, Adran 116

### **Hysbysiad o Gyfethol**

RHODDIR HYSBYSIAD TRWY HYN fod Cyngor Cymuned Llandwrog yn bwriadu Cyfethol, yn cyfarfod o'r Cyngor Llawn ddyddiedig **18 Ionawr 2021** aelodau i lenwi **dwy sedd wag** sydd ar gael ar gyfer Cynghorydd/Cynghorwyr yng Nghymuned Llandwrog yn benodol un sedd yn **Ward Y Groeslon** ac un sedd yn **Ward Carmel**.

Ceisir datganiadau o ddiddordeb gan aelodau o'r cyhoedd sy'n cyflawni'r meini prawf canlynol ac sydd â diddordeb mewn cynrychioli eu cymuned ar y Cyngor Cymuned dywededig. Rhaid bod yn ddinesydd Prydain, y Gymanwlad, Iwerddon neu'r Undeb Ewropeaidd ac yn 18 oed neu'n hŷn, ac yn cyflawni o leiaf un o'r meini prawf canlynol:

- wedi'ch cofrestru fel etholwr llywodraeth leol ar gyfer yr ardal a enwir uchod; neu
- yn ystod y cyfan o'r 12 mis diwethaf, wedi bod yn berchennog neu'n denant tir neu safle arall yn y gymuned a enwir uchod; neu
- wedi bod â'ch prif neu'ch unig weithle yn ystod y 12 mis diwethaf yn y gymuned a enwir uchod; neu
- rydych wedi byw yn y Gymuned, neu o fewn 4.8 cilometr ohoni yn ystod y cyfan o'r 12 mis diwethaf.<sup>1</sup>

Os ydych yn dymuno cael eich ystyried i gael eich cyfethol ar gyfer y sedd(au) gwag, neu'n dymuno cael rhagor o wybodaeth ynghylch rôl Cynghorwyr Cymuned, cysylltwch â'r Swyddog Priodol, sef Rheolwr y Cyngor Cymuned ar/yn 01286 881920 neu ebost [rheolwr@cyngorcymunedllandwrog.cymru](mailto:rheolwr@cyngorcymunedllandwrog.cymru) erbyn 11 Ionawr 2021

***Dyddiedig 14 diwrnod hwn o fis Rhagfyr 2020***

---

<sup>1</sup> Mae rhai pobl penodol wedi'u hanghymwysu rhag ymgeisio, yn eu plith swyddogion cyflogedig y Cyngor, unrhyw un sy'n destun gorchmynion cyfyngu methdalwyr a'r rheiny sy'n destun dedfrydau o garchar yn ddiweddar.